



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Trefniadau ar gyfer y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig

Ymgynghoriad ar gyflwyno cronfa i gefnogi pobl anabl i sefyll am
swydd etholedig yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2020
Ymatebion erbyn: 20 Ionawr 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg Sefydlu cronfa i gefnogi ymgeiswyr anabl sy'n wynebu costau ychwanegol yn gysylltiedig ag ymgeisio am swydd etholedig.

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn y ddogfen hon, neu gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ein gwefan.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon. Dylid anfon yr ymateb i.

Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost:
DLL.DemocratiaethAmrywiaethCydnabyddiaeth@llyw.cymru

Cwblhau [ffurflen ar-lein](#)

Hefyd ar gael yn Saesneg yn: <https://gov.wales/access-elected-office-fund>

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan contract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

Swyddogdiogelwchdata@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu amrywiaeth ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol drwy sefyll am swydd etholedig. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chynyddu'r cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol chwarae rôl lawn wrth gefnogi a chynrychioli eu cymunedau.

Argymhellodd yr adroddiad 'Ar ôl pwyso a mesur', a gomisiynwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd, Lesley Griffiths yn 2014, y dylai Llywodraeth Cymru astudio'r gwerthusiad o'r prosiect Mynediad i Swydd Etholedig a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU, ac ystyried cynnal cynllun tebyg ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru.

Ystyriwyd sefydlu'r gronfa fel rhan o'r Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a gynhaliwyd rhwng 2014 a 2016. Yn anffodus, oherwydd nifer o faterion cymhleth, nid oedd modd sefydlu'r gronfa ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2017.

Mabwysiadodd y Cynulliad Cenedlaethol y Model Cymdeithasol o Anabledd am y tro cyntaf yn 2002, a Chymru oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i wneud hynny. Wrth i Lywodraeth Cymru gyhoeddi 'Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw yn Annibynnol' ym mis Medi 2019, ymrwymodd o'r newydd i'r model. Ein nod yw ymgorffori'r model mewn ffordd weladwy ac effeithiol ym mhob maes gwaith, gan gynnwys fel cyflogwr, ac annog gwasanaethau cyhoeddus ac asiantaethau eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.

Mae'r Model Cymdeithasol yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cymryd rhan a chael eu cynnwys ym mhob rhan o fywyd.

Yr angen am newid

Rhaid i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y'u nodir yn adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau¹. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn gytuniad rhyngwladol sy'n hyrwyddo, yn diogelu ac yn sicrhau y gall pobl anabl fwynhau pob hawl ddynol yn llawn ac yn gyfartal. Mae erthyglau'r Confensiwn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys hygyrchedd, byw'n annibynnol, addysg, iechyd a gwaith a chyflogaeth. O ran byw'n annibynnol, mae Erthygl 19 (Byw'n annibynnol a chynhwysiant yn y gymuned) yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- Bod gan bobl anabl hawl gyfartal i fyw yn y gymuned a chymryd rhan ynddi.
- Bod gan bobl anabl hawl i'r un dewis a rheolaeth â phobl nad ydynt yn anabl.

¹ <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html>

Bydd creu Cymru fwy cyfartal, lle bydd pawb yn cael cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu llawn botensial a chyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol.

Y lefel bresennol o gynrychiolaeth

Mae adran un o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg o ymgeiswyr sydd wedi sefyll ar gyfer etholiadau, fel cynghorwyr, mewn etholiadau cyffredin i brif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru. Bwriedir i'r arolwg ymdrin ag amrywiaeth o faterion a helpu i hysbysu llunwyr polisi am lwyddiant neu fethiant mentrau i annog amrywiaeth ehangach o bobl i sefyll etholiad i gynghorau. Mae cwestiynau'r arolwg, ffurflen yr arolwg a'r dull o gasglu gwybodaeth wedi'u nodi yn y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i unrhyw drefniadau a roddir ar waith sicrhau bod cynghorwyr ac ymgeiswyr yn gallu darparu'r wybodaeth yn ddienw. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reidrwydd ar gynghorwyr ac ymgeiswyr i ymateb i'r arolwg.

Dangosodd arolwg 2013 o ymgeiswyr a chynghorwyr fod y mwyafrif o gynghorwyr yng Nghymru dros 60 oed, fod ychydig o dan eu hanner yn ddynion, 99% yn wyn a dim ond 31% sydd mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 35%. Roedd hyn yn amrywio o 12% yng Nghaerdydd i 66% yn Sir y Fflint. Pan gwblhawyd yr arolwg yn 2017, gostyngodd y gyfradd ymateb gyffredinol o 35% yn 2012 i ychydig o dan 20%. At hyn, roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys data amrywiaeth anghyflawn.

Yng Nghymru, mae 1251 o gynghorwyr wedi'u hethol i 22 o Awdurdodau Lleol. Er na chesglir ystadegau am nifer y cynghorwyr anabl, tybir nad yw pobl anabl wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

Nid ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol yn unig y mae hyn yn wir. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad i gasglu na chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr etholiadau'r Senedd, er y gallai pleidiau wneud hynny o'u gwirfodd pe byddent yn dymuno. Yn yr un modd, nid oes unrhyw broses monitro cydraddoldeb ffurfiol ar gyfer Aelodau'r Senedd. Mae'r SYG yn [amcangyfrif](#) fod tua 22% o boblogaeth Cymru yn anabl, a fyddai'n awgrymu y dylai tua 13 o Aelodau'r Senedd fod yn anabl er mwyn bod yn gynrychioliadol.

Y trefniadau ar hyn o bryd ar gyfer hawlio treuliau gan ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad.

Mae deddfwriaeth yn nodi'r uchafswm y gall ymgeiswyr mewn etholiad ei wario ar eu hymgyrch etholiadol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno manylion am eu treuliau etholiad i'r Comisiwn Etholiadol, ac yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol fonitro cydymffurfiad ymgeiswyr ac asiantiaid â rheolau ar wariant a rhoddion etholiad ymgeiswyr.

Mae gwariant ymgeiswyr yn cynnwys unrhyw dreuliau yr eir iddynt, p'un a yw hynny ar nwyddau, gwasanaethau, eiddo neu gyfleusterau, at ddibenion etholiad yr ymgeisydd

yn ystod y cyfnod a elwir yn gyfnod a reoleiddir.

Gwneud newidiadau i esemtio treuliau sy'n gysylltiedig â namau o derfynau gwario ymgeiswyr

Bydd Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020, y disgwylir iddo ddod i rym ym mis Tachwedd 2020, yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd ymgeiswyr er mwyn iddynt gael eu heithrio o derfynau gwario ymgeiswyr, a hynny yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol. Wrth ddatblygu'r rheoliadau hyn, cytunwyd y dylid defnyddio'r diffiniad o anabledd a geir yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn diffinio anabledd fel a ganlyn:

(1) Mae gan berson (P) anabledd os—(a) mae gan P nam corfforol neu feddyliol a (b) mae'r nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu P i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Bydd defnyddio'r diffiniad hwn o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn sicrhau cysondeb â deddfwriaeth arall.

Y Trefniadau Peilot

Mae Gweinidogion Cymru wedi sefydlu cronfa, a elwir, at ddibenion y ddogfen ymgynghori hon, yn Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru (AEOFW)

Caiff y gronfa ei sefydlu ar sail peilot yn y lle cyntaf a bydd yn cefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll i gael eu hethol yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Bwriedir iddi gefnogi unigolion sydd wedi cael eu derbyn fel ymgeiswyr at ddibenion un o'r etholiadau a bennir yn y peilot.

Bydd y trefniadau yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaeth cynghori i annog a chefnogi pobl anabl i geisio swydd etholedig ac i roi cefnogaeth wrth nodi cymorth wedi'i deilwra;
- Cymorth ariannol i gefnogi ymgeiswyr i dalu'r costau cymorth ychwanegol angenrheidiol er mwyn iddynt gymryd rhan yn yr etholiad;

Anabledd Cymru fydd yn ymgymryd â'r gwaith o weinyddu'r gronfa a rheoli'r dyraniadau fydd ar gael i gefnogi ymgeiswyr anabl.

Caiff gwerthusiad o'r trefniadau ei gynnal yn dilyn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Rhagfyr 2022. Bydd hyn yn llywio datblygiad cynllun hirdymor a ddyluniwyd i gynyddu'r gynrychiolaeth o bobl anabl ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.

Y math o gymorth sydd ar gael drwy'r gronfa

Nid yw'n bosibl nodi'r holl gymorth y gellid cael gafael arno drwy'r gronfa hon. Mae hyn am fod natur y cymorth y bydd ei angen gan unigolion yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar y rhwystrau a wynebir ganddynt fel person Byddar neu anabl. Byddem yn dymuno i'r cymorth gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Cymorth trafniadaeth
- Cyfarpar arbenigol fel meddalwedd darllenydd sgrin
- Dehongli Iaith Arwyddion Prydain
- Trawsgrifio deunyddiau ymgyrchoedd i fformatau amgen
- Costau tacsï
- Cynorthwydd personol

Sut y disgwylir i'r trefniadau gael eu rhoi ar waith

Bydd Anabledd Cymru yn recriwtio Cydgysylltydd y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig i hyrwyddo a chyflwyno'r cynllun ac yn penodi Bwrdd Cynghori i'w oruchwylio a gwneud penderfyniadau am geisiadau. Bydd y Bwrdd annibynnol yn cynnwys pobl anabl a chanddynt amrywiaeth eang o wybodaeth a phrofiad o gyfranogiad dinesig a dymchwel rhwystrau mewn cymdeithas, gan gynnwys rhwystrau sy'n gysylltiedig â sefyll am swydd etholedig. Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo meini prawf ar gyfer gwneud cais i'r gronfa yn unol â rheoliadau ac yn gwneud penderfyniadau am geisiadau unigol i'r gronfa. Bydd y Cydgysylltydd yn hyrwyddo'r cynllun yn eang ac yn cynghori ymgeiswyr ar gwmpas y cynllun a'r broses gwneud cais.

Materion i'w hystyried

Mae gweddill y papur hwn yn nodi elfennau allweddol o'r peilot y byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu eich adborth arnynt.

Meini Prawf Cymhwysedd - Mae angen set o feini prawf ar bob cronfa y mae'n rhaid i unigolion eu bodloni er mwyn gallu elwa ar y gronfa. Cynigir meini prawf triphlyg ar gyfer y gronfa hon, ac maent yn mynnu bod pob ymgeisydd:

- yn gymwys i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad dan sylw. Bydd yr amodau cymhwyso wedi'u nodi yn y rheoliadau etholiad perthnasol
- wedi'i gofrestru fel ymgeisydd ar gyfer yr etholiad dan sylw - bydd y trefniadau manwl ar gyfer cymhwyso fel ymgeisydd ar gyfer etholiad wedi'u nodi yn y trefniadau sy'n ymwneud â'r etholiad penodol y mae'r unigolyn yn ymgeisio ar ei gyfer. Bydd yn cynnwys amserlenni ar gyfer cwblhau'r prosesau enwebu o fewn y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer yr etholiad hwnnw.

Mae'r trydydd maen prawf yn ymwneud â'r unigolyn sy'n ceisio cael ei ethol a ph'un a yw'n cyfateb i'r diffiniad o anabledd o dan adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae dwy ffordd y gallai'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r gronfa reoli'r elfen hon o'r meini prawf. Yn gyntaf, byddai angen i'r unigolyn gyflwyno tystiolaeth swyddogol o'i nam. Byddai hyn, er enghraifft, yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn ddarparu tystiolaeth feddygol ei fod yn anabl. . Os nad oes ganddynt dystiolaeth feddygol, gallai hyn wneud i unigolion benderfynu peidio â gwneud cais i'r gronfa, er eu bod yn teimlo eu bod yn cyfateb i'r diffiniad a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Byddai caniatáu i bobl hunanddiffinio fel person anabl yn ddull gweithredu amgen. Byddai angen i unrhyw benderfyniad i weithredu ar sail hunanddiffinio sicrhau bod y broses ymgeisio yn ddigonol i atal camddefnydd o'r system gan bobl nad ydynt yn gymwys i wneud cais.

Mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i annog cynifer o unigolion â phosibl i ddefnyddio'r gronfa.

C1 Ar ba sail y dylai'r gronfa weithredu yn eich barn chi?

- **Tystiolaeth feddygol o nam**
- **Hunanddiffinio fel anabl**

Cyfyngiadau ar ddyraniadau fesul ymgeisydd – Mae unigolion wedi'u cyfyngu gan rwystrau analluogol mewn cymdeithas mewn nifer o ffyrdd ac, yn dibynnu ar eu nam neu eu cyflwr penodol, mae'n bosibl y bydd angen cymorth gwahanol iawn ar bob unigolyn. Bydd y rhain yn amrywio o gymorth â chostau tacsî, i gyfarpar arbenigol fel meddalwedd darlennydd sgrin i ddehongli laith Arwyddion Prydain ar gyfer ymgeiswyr byddar. O ganlyniad, mae'n anodd awgrymu terfyn priodol i'r lefel o gymorth y dylai pob ymgeisydd allu ei derbyn. Ar y sail hon, awgrymir na ddylid rhoi terfyn ar y lefel o gymorth y dylai pob unigolyn sy'n gwneud cais i'r gronfa ei derbyn.

C2 Ydych chi'n cytuno na ddylid gosod terfyn ar y swm y gall pob ymgeisydd ei dderbyn o'r gronfa?

Rheoli cronfeydd – Disgwylir na fydd llawer o'r rhai sy'n gwneud cais i'r gronfa wedi sefyll etholiad yn y gorffennol ac felly gallent wynebu amrywiaeth o gyfrifoldebau sy'n gwbl newydd iddynt. Un o'r ffyrdd y gellid eu cefnogi fyddai pe bai Anabledd Cymru yn rheoli'r elfen ymarferol (drafodol) o'r dyraniadau a wneir i bob ymgeisydd, drwy brosesu taliadau neu brynu cyfarpar arbenigol i ymgeiswyr. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i Anabledd Cymru gynnal goruchwyliaeth o'r gwariant a chefnogi unigolion. Byddai angen i unrhyw drefniadau o'r fath fod yn seiliedig ar gytundeb â'r ymgeisydd. Lle nad yw ymgeisydd yn awyddus i weithredu ar y sail hon, byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i ymgeisydd, a fyddai wedyn yn gyfrifol am ei reoli ei hun.

C3 Ydych chi'n cytuno y dylai Anabledd Cymru ddarparu gwasanaeth cymorth ariannol i ymgeiswyr?

Cymorth yn dod i ben ar adeg yr etholiad – nod y gronfa hon yw cefnogi unigolion i sefyll mewn etholiad. Disgwylir y daw'r gronfa hon i ben ar unwaith ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei gyhoeddi. Mae hyn am na fydd unigolion yn ymgeiswyr ar ôl yr etholiadau ac felly, ni fyddant yn bodloni gofynion y gronfa.

C4 Ydych chi'n cytuno na ddylai ymgeiswyr gael cymorth o'r gronfa hon ar ôl i ganlyniad yr etholiad roeddent yn sefyll ynddo gael ei gyhoeddi?

Tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl – Mae'n bosibl y bydd ymgeisydd yn dewis tynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl yn ystod ymgyrch etholiad. Efallai y bydd wedi cael cymorth gan y gronfa yn ystod y cyfnod y bu'n ymgyrchu. Mae llawer o bethau yn digwydd mewn bywyd, er enghraifft profedigaeth, salwch ac argyfyngau teuluol i enwi ond ychydig. Mewn llawer o achosion, bydd y pethau hyn yn digwydd heb fod unrhyw fai ar yr unigolion eu hunain.

Mewn rhai achosion, gallai beri caledi personol i fynnu bod cyllid yn cael ei ad-dalu a/neu fod cyfarpar yn cael ei ddychwelyd. Mae'n debygol y byddai angen ystyried yr amgylchiadau unigol a gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.

C5 Ydych chi'n cytuno, lle y bydd unigolyn wedi gorfod tynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl, y dylai penderfyniadau am adfer cyllid a ddyrennir eisoes gael eu hystyried ar sail unigol?

Enw'r gronfa – At ddibenion y ddogfen ymgynghori hon, gelwir y gronfa yn Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru. Croesewir sylwadau ynghylch cadw'r enw hwn ar y gronfa neu a oes dewisiadau amgen y dylid eu hystyried.

C6 A ddylid cadw at yr enw 'Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig' yn eich barn chi? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych awgrymiad amgen?

C7 A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol am y cynigion yn y ddogfen hon?

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Holiadur Ar-lein

C1 Ar ba sail y dylai'r gronfa weithredu yn eich barn chi?

- Tystiolaeth feddygol o nam
- Hunanddiffinio fel person anabl

Rhowch sylwadau ychwanegol

C2 Ydych chi'n cytuno na ddylid rhoi terfyn ar y swm y gall pob unigolyn ei dderbyn o'r gronfa?

Rhowch sylwadau ychwanegol

C3 Ydych chi'n cytuno y dylai Anabledd Cymru ddarparu gwasanaeth cymorth ariannol i ymgeiswyr?

Rhowch sylwadau ychwanegol

C4 A ydych yn cytuno y dylai ymgeiswyr roi'r gorau i gael cymorth o'r gronfa hon, unwaith y bydd canlyniad yr etholiad i'r sedd yr oeddent yn ei herio yn hysbys?

Rhowch sylwadau ychwanegol

C5 Ydych chi'n cytuno, lle y bydd unigolyn wedi gorfod tynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl, y dylai penderfyniadau am adfer cyllid a ddyrennir eisoes gael eu hystyried ar sail unigol?

Rhowch sylwadau ychwanegol

C6 A ddylid cadw at yr enw 'Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig' yn eich barn chi? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych awgrymiad amgen?

Dylid / Na ddylid

Rhowch fanylion awgrymiadau amgen yn y blwch a ddarperir.

C7 A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol am y cynigion yn y ddogfen hon? Os felly, dylech eu nodi yn y blwch isod.